# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Council Chamber, County Hall, Ruthin and by Video Conference, Dydd Iau, 21 Mawrth 2024 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, Bobby Feeley, Brian Jones, Terry Mendies, Raj Metri a/ac Arwel Roberts

## HEFYD YN BRESENNOL

Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, Ann Lloyd, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd, Karen Evans, Cydlynydd Craffu, Stephanie Jones (Gweinyddwr Zoom), Sharon Walker (Gweinyddwr Pwyllgorau).

Y Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen.

Alyson Constantine, Cyfarwyddwr Gofal Acíwt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Kelly Clewett, Pauline Edwards, David Williams a/ac Elfed Williams

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 14 Rhagfyr 2023.

Materion yn Codi – Tudalen 8 – Gosod Lefelau Rhent Fforddiadwy – codwyd cwestiwn ynghylch y tâl gwasanaeth ac a oedd yn cynnwys cynnal a chadw mannau chwarae. Yn ogystal â hyn, gofynnwyd a fyddai'r mannau chwarae'n cael eu dwyn yn ôl dan berchnogaeth gyhoeddus drwy Gyngor Sir Ddinbych. Gofynnwyd am ymateb ysgrifenedig ond nid yw hwn wedi'i dderbyn hyd yma. Gwnaeth y Cydlynydd Craffu gadarnhau ei bod hi wedi anfon nodyn atgoffa ar gyfer ymateb.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir.*

## 5 PROSIECT YSBYTY CYMUNED GOGLEDD SIR DDINBYCH

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Cynghorydd Elen Heaton, y Cyfarwyddwr Gofal Acíwt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r Pwyllgor.

Yn dilyn cyfarfod i drafod Ysbyty Brenhinol Alexandra, roedd cynnydd wedi'i wneud ond yr oedd yn y cyfnod cynnar. Gwnaeth yr Aelod Arweiniol gadarnhau fod datblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra yn brosiect Bwrdd Iechyd a oedd yn cael cefnogaeth gan Gyngor Sir Ddinbych pan fo angen. Pwysleisiwyd pwysigrwydd datblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra i liniaru'r pwysau ar Ysbyty Glan Clwyd ac integreiddio rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol fyddai'r flaenoriaeth.

Cadarnhaodd Alyson Constantine, Cyfarwyddwr Gofal Acíwt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yr amserlenni a'r prosesau ar gyfer y dyfodol i’r Pwyllgor.

Roedd prosiect partneriaeth wedi’i sefydlu ac yr oedd cefnogaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi’i gadarnhau ym mis Rhagfyr 2023.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda TACP Architects i gyflwyno dyluniadau o safon uchel, costau ac amserlenni.

Byddai'r Gwerthusiad Dewis yn mynd i Lywodraethu Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Mawrth ac yna'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC) ddiwedd mis Mawrth. Byddai Llywodraeth Cymru yna’n cadarnhau dyraniadau cyllid a grant yn dilyn y cam hwn.

Roedd yr ysgogwyr ar gyfer y gwerthusiad dewis fel a ganlyn -

- Adnewyddu'r adeilad presennol ar gyfer cynaliadwyedd a sicrhau ei fod yn addas i'r diben;
- Defnyddio’r arwynebedd llawr yn y ffordd orau posibl i fanteisio ar y buddion cymunedol;
- Canolbwyntio ar integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Gwella cydweithio rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector;
- Darparu Uned Mân Anafiadau yn cynnwys rhai gwelyau ar y campws;
- Darparu llety sy’n addas at y diben – nid popeth yn yr adeilad newydd;
- Mae’n rhaid i’r dewis fod yn fforddiadwy.

Mae’r adeilad clinigol newydd yn darparu gwasanaethau newydd ac estynedig -

- Gwelyau cymunedol – model newydd o ofal cam i fyny a cham i lawr;
- Uned anafiadau difrifol i'r gymuned a chlinigau Nyrsys Ardal;
- Gwasanaethau radioleg estynedig i gynnwys uwchsain a gwasanaeth y tu allan i oriau;

- Canolbwynt trydydd sector i gynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth a hybu lles;
- Llety estynedig ar gyfer timau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar y safle;
- Caffi cymunedol ar gyfer ymwelwyr a staff;
- Gwasanaethau deintyddol cymunedol i'w darparu'n lleol mewn amgylchedd sy'n addas at y diben.

Adnewyddu'r adeilad presennol a defnyddio'r safle ehangach -

- Darparu amgylchedd sy'n addas at y diben ar gyfer -
    - Timau amlasiantaeth
    - Grwpiau'r trydydd sector
    - Gwasanaethau Plant
    - Gwasanaethau Therapi, a
    - Gwasanaethau Iechyd Rhywiol.
- byddai amrywiaeth o dimau cefnogi wedi'u lleoli ar y safle;
- cadw dau adeilad Glan Traeth sy'n cynnal timau iechyd meddwl pobl hŷn ac amrywiaeth o wasanaethau cleifion allanol
- maes parcio estynedig oddi ar y safle.

Roedd Dewisiadau Cwmpas Adolygu Ysbyty Brenhinol Alexandra fel a ganlyn -

- **Dewis 1 -** Gwneud dim
- **Dewis 2 -** Gwaith adfer ar yr Ysbyty Brenhinol Alexandra presennol. Dim newid i wasanaethau.
- **Dewisiadau 3, 4 a 5 -** Cwmpas Canolradd - Dewisiadau Newydd
    - Dewis 3 - Unllawr, ôl troed achos busnes gwreiddiol a chynllun y llawr gwaelod. Darparu uned mân anafiadau, gwasanaethau deintyddol cymunedol, gwasanaethau radioleg estynedig, gwasanaethau iechyd rhywiol ehangach a chanolbwynt y trydydd sector. Adnewyddu'r adeilad presennol.
    - Dewis 4 - Unllawr, ôl troed achos busnes gwreiddiol a chynllun newydd. Darparu uned mân anafiadau, gwasanaethau deintyddol cymunedol, gwasanaethau radioleg estynedig, gwelyau cymunedol a chanolbwynt y trydydd sector. Adnewyddu'r adeilad presennol.
    - Dewis 5 - deulawr, yr un arwynebedd llawr â dewisiadau 3 a 4 a chynllun newydd. Darparu uned mân anafiadau, gwasanaethau deintyddol cymunedol, gwasanaethau radioleg estynedig, gwelyau cymunedol a chanolbwynt y trydydd sector. Adnewyddu'r adeilad presennol.
- **Dewis 6 - Uchafswm Cwmpas yr Achos Busnes Llawn**

Byddai'r amserlenni'n dibynnu ar ganlyniad yr ymgysylltu â LlC ynghylch y dewisiadau sydd ar gael.

Gwnaeth aelodau ddiolch i Alyson am y cyflwyniad.

Yn ystod y trafodaethau, codwyd y pwyntiau canlynol –

- Mynegodd yr aelodau eu rhwystredigaeth gan fod y cynllun gwreiddiol ar gyfer Ysbyty Brenhinol Alexandra wedi'i gyflwyno 13 mlynedd yn ôl. Roedd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fel yr aelodau, yn rhwystredig. Eglurwyd bod angen cynnig y model a'r cyfleusterau mwyaf priodol yn y ffordd fforddiadwy orau. Dylai'r broses fod yn un syml eleni a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn fuan. Cadarnhawyd na fyddai'r achos busnes a gyflwynwyd flynyddoedd yn ôl yn fforddiadwy ar hyn o bryd. Roedd y dewisiadau a gyflwynwyd yn fwy fforddiadwy ar gyfer cyfleuster addas at y diben.
- Codwyd y mater o drosglwyddo cleifion i ardaloedd eraill ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Cadarnhawyd y byddai cleifion yn dal i gael eu trosglwyddo i ardaloedd eraill ar gyfer y triniaethau angenrheidiol gorau ac na fyddai'r broses honno'n newid.
- Roedd cyfranogiad yr aelodau yn bwysig ac yr oedd Arweinydd ac Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwneud â thrafodaethau a chynlluniau ar gyfer Ysbyty Brenhinol Alexandra. Cadarnhawyd y byddai gwybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r aelodau i gyd er mwyn sicrhau parhad o ran cyfathrebu.

Ar y pwynt hwn, cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod llythyr yn cael ei anfon at Vaughan Gething, Gweinidog Iechyd Llywodraeth Cymru, a Phennaeth y Gwasanaethau Iechyd yn gofyn am ragor o arian i Ogledd Cymru i ganiatáu i'r ysbyty hwn gael ei adeiladu cyn gynted â phosibl.

Cafodd ei eilio gan y Cynghorydd Bobby Feeley.

***PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn nodi'r cyflwyniad diweddaru ac yn cytuno i anfon llythyr gan y Pwyllgor at Vaughan Gething, Gweinidog Iechyd a Phennaeth y Gwasanaethau Iechyd yn gofyn am fwy o arian i Ogledd Cymru i ganiatáu Ysbyty Brenhinol Alexandra gael ei adeiladu cyn gynted â phosibl.*

## 6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu yr adroddiad a'r atodiadau (dosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion perthnasol.

Cafodd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ei drefnu ar gyfer 16 Mai 2024. Nid oedd unrhyw eitemau wedi'u rhestru ar gyfer y cyfarfod nesaf ar hyn o bryd. Derbyniwyd tair ffurflen cynnig ond bydden nhw'n cael eu trafod yng Ngrŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu o ran pa Bwyllgor Craffu y bydden nhw'n cael eu cyfeirio ato.

Atodiad 3 oedd Rhaglen Waith y Cabinet er gwybodaeth i'r Aelodau.

Roedd Atodiad 4 yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn ag argymhellion o'r cyfarfod blaenorol.

***PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn cadarnhau'r rhaglen waith fel y'i hamlinellir yn Atodiad 1.*

## 7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Ni chafwyd adborth.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 11.37 A.M.**